# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Bryn Castell |
| **SWYDD:** | Swyddog Cymorth Arbennig |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR07 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Eich rôl fydd goruchwylio a chynorthwyo grwpiau o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i ymgymryd â gweithgareddau dysgu gyda ffocws pendant.
Gyda'r gallu i weithio yn ôl eich menter eich hun, ac o fewn tîm, byddwch yn gwneud cyfraniad gwerthfawr drwy gynorthwyo wrth gynllunio a pharatoi adnoddau priodol, er mwyn cyflawni ac asesu profiadau dysgu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio a darparu cymorth penodol dan gyfarwyddyd yr Uwch Dîm Rheoli a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, ar gyfer disgyblion ag anghenion arbennig, gan sicrhau eu diogelwch a mynediad i weithgareddau dysgu.
- Paratoi a defnyddio offer/adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r cynlluniau gwersi/gweithgaredd dysgu perthnasol a chynorthwyo disgyblion wrth ddefnyddio'r rhain.
- Creu a chynnal amgylchedd pwrpasol, trefnus a chefnogol, yn unol â chynlluniau gwersi a chynorthwyo gydag arddangos gwaith disgyblion.
- Cynorthwyo â chynllunio a pharatoi gweithgareddau dysgu.
- Rhoi adborth manwl a rheolaidd i athrawon ar gynnydd datblygiad disgyblion, rhwystrau i ddysgu ac ati.
- Cynorthwyo â goruchwylio disgyblion y tu allan i amser gwersi, gan gynnwys amser cinio ac amser chwarae.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch hyfforddi a datblygu i gynnal eich hyfforddiant proffesiynol neu gymhwysedd eich hun yn y rôl swydd.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â gradd y swydd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person
## Swyddog Cymorth Arbennig

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh (NVQ) Lefel 3 neu gymwysterau cyfwerth neu brofiad amlwg.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig, yn ddelfrydol gydag anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol, gan gynnwys awtistiaeth.<br>• Profiad o weithio gyda disgyblion mewn amgylchedd ysgol arbennig.<br>• Deall y nodweddion allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a chynnydd plant a phobl ifanc.<br>• Profiad o ddefnyddio sgiliau i ddatblygu safonau disgyblion o fewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol â phlant ac oedolion.<br>• Amrywiaeth eang o sgiliau a fydd yn symbylu disgyblion ag ymddygiad heriol.<br>• Gallu datblygu'r broses o ddethol a pharatoi a datblygu adnoddau sy'n addas ar gyfer diddordebau a galluoedd plant a phobl ifanc<br>• Gallu gweithio'n hyblyg er mwyn cynnal a dadansoddi cofnodion o gynnydd dysgwyr.<br>• Gallu helpu dysgwyr i wellau eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |